# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 2**

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

**PENNOD 2**

GWAREDIADAU TRETHADWY

### 7 Gwaredu deunydd fel gwastraff: person sy'n gyfrifol am waredlad

(1) Mae'r adran hon yn nodi pwy yw'r person sy'n gyfrifol am waredlad at ddibenion adran 6.

(2) Yn achos gwarediad a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig, y person sy'n gyfrifol am y gwarediad yw'r person sy'n weithredwr y safle ar adeg y gwarediad.

(3) Ond os gwneir y gwarediad heb ganiatâd y gweithredwr, y person sy'n gyfrifol am y gwarediad yw'r person sy'n gwneud y gwarediad.

(4) Gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig yw deiliad y drwydded amgylcheddol sy'n awdurdodi gwaredu deunydd drwy dirlenwi ar y safle.

(5) Yn achos gwarediad a wneir yn rhywle nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig, nac yn rhan o safle o'r fath, y person sy'n gyfrifol am y gwarediad yw'r person sy'n gwneud y gwarediad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 7.